Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygiad o Reoli Perfformiad Gwasanaethau – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy


Blwyddyn archwilio: 2024-25

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4742A2025

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel rhan o'r gwaith a wnaethpwyd/sydd i'w wneud yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu weithiwr arall yn eu rhinwedd unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Crynodeb o'r archwilio

## Yr hyn y gwnaethom ei ystyried

Fe wnaethom adolygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli perfformiad gwasanaethau. Fe wnaethom ddewis y pwnc hwn oherwydd bod ein gwaith Archwilio ac Asesu Risg yn 2023-24 wedi nodi risg archwilio posibl yn ymwneud ag adrodd ar reoli perfformiad yn brydlon.

## Pam mae hyn yn bwysig

Mae'n bwysig i gynghorau fod â threfniadau monitro a rheoli perfformiad effeithiol ar waith, fel y gallant ddeall yn llwyr sut mae eu gwasanaethau'n perfformio gan nodi meysydd lle mae angen iddynt gymryd camau cywiro. Gall adrodd yn hwyr fod yn ddangosydd nad yw trefniadau monitro perfformiad yn effeithiol. Gwnaethom gynnal yr adolygiad yn ystod y cyfnod rhwng mis Mawrth i fis Ebrill 2025.

## Ein casgliad

Mae gan y Cyngor drefniadau cadarn ar gyfer adrodd rheoli perfformiad. Mae diffyg mesurau canlyniadau o ran adrodd ar wasanaethau, sy'n gwanhau ei allu i fesur effaith. Mae'r Cyngor wedi nodi hyn fel rhan o'i werthusiad parhaus o drefniadau ac mae wedi dechrau gweithredu gwelliannau.

## Yr hyn yr ydym yn ei argymell

Rydym yn gwneud un argymhelliad, sef:

- datblygu dull strategol i wella'r defnydd o ddata canlyniadau.

# Ein canfyddiadau

## Trefniadau cadarn ar gyfer adrodd ar reoli perfformiad

Mae gan y Cyngor broses adrodd perfformiad gadarn. Mae'r tîm perfformiad corfforaethol yn rheoli cynllun corfforaethol y Cyngor. Mae'r cynllun corfforaethol a'i fesurau perfformiad yn cael eu herio gan Aelodau Etholedig cyn eu cymeradwyo ac adroddir cynnydd i'r Cabinet a'r pwyllgor Craffu bob chwe mis. Mae'r cynllun yn cael ei werthuso ddwywaith y flwyddyn, a gellir cyflwyno amcanion a mesurau newydd i adlewyrchu newidiadau mewn blaenoriaethau ac amgylchiadau. Mae hyn yn sicrhau bod y cynllun a'r mesurau yn parhau i fod yn berthnasol i anghenion trigolion, gweithwyr ac ymwelwyr.

Mae’r canllawiau y mae’r tîm corfforaethol yn eu darparu yn cefnogi meysydd gwasanaeth i gynhyrchu cynlluniau gwasanaeth blynyddol a datblygu mesurau perfformiad. Mae mesurau newydd yn cael eu sicrhau o ran ansawdd, ac mae cynlluniau blynyddol yn cael eu herio gan uwch swyddogion ac Aelodau'r Cabinet cyn eu cymeradwyo. Mae gan y Cyngor system rheoli perfformiad ganolog (CAMMS) sy'n cael ei defnyddio gan feysydd gwasanaeth i gofnodi eu mesurau perfformiad ac adrodd cynnydd yn eu herbyn. Mae defnyddio canllawiau a system ganolog yn gyson i gefnogi cynlluniau meysydd gwasanaeth yn caniatáu cysondeb a goruchwyliaeth gan y tîm corfforaethol.

Mae gan rai meysydd gwasanaeth reolwyr busnes sy'n darparu adnodd ac arbenigedd pwrpasol i gefnogi rheoli perfformiad. Lle nad yw'r adnodd hwn ar gael, mae cefnogaeth yn cael ei darparu gan y tîm corfforaethol. Mae'r cymorth hwn yn eang a gall fodloni ceisiadau meysydd gwasanaeth, ond nid yw'n cynnwys hyfforddiant strwythuredig, manwl a rhagweithiol i feysydd gwasanaethau i sicrhau cysondeb.

## Mae adrodd yn canolbwyntio ar weithgarwch ac nid effaith

Mae'r prosesau adrodd ar gyfer perfformiad gwasanaethau yn cynnwys rolau wedi’u diffinio ar gyfer amrywiaeth eang o swyddogion ac Aelodau Etholedig. Mae'r broses yn herio a chefnogi meysydd gwasanaeth. Mae'r Cyngor yn uwchgyfeirio adrodd pan nodir perfformiad gwael a rhoddodd enghreifftiau o hyn. Mae hyn yn caniatáu i'r Cyngor nodi perfformiad gwael a gweithredu camau adfer mewn modd amserol.

Mae adrodd perfformiad yn gysylltiedig ag adrodd ariannol a rheoli risg, ac mae hyn yn rhoi cyd-destun ehangach ar gyfer perfformiad i uwch swyddogion ac Aelodau Etholedig. Er enghraifft, gwelsom adroddiad diweddaru ar wasanaethau Tai a Digartrefedd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Economi a Lleoedd ar 26 Chwefror 2025 a oedd yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf ar berfformiad gwasanaethau ochr yn ochr ag adolygiad o'r gwariant gwasanaethau a'r incwm grant ar gyfer y flwyddyn ariannol. Mae hyn yn caniatáu i Aelodau Etholedig ystyried perfformiad a sefyllfa’r gyllideb ochr yn ochr.

Mae'r Tîm Perfformiad Corfforaethol wedi canolbwyntio ar wella prydlondeb adrodd ers ein gwaith Archwilio ac Asesu Risg yn 2023-24. Aeth adroddiad diwedd blwyddyn ar gyfer 2023-24 drwy'r cylch pwyllgor ym mis Hydref 2024, ond mae adroddiad 2024-25 yng nghalendr gwaith y Cyngor ar gyfer Gorffennaf 2025. Disgwylir i'r adroddiad hunanasesu chwe mis fynd i'r pwyllgor ym mis Tachwedd 2025. Mae amserlenni adrodd byrrach yn gwella effeithiolrwydd dealltwriaeth y Cyngor o berfformiad a'i allu i ymateb i berfformiad gwael.

Nid yw’r fformatau a ddefnyddir ar gyfer cyfrifo risg perfformiad, risg gorfforaethol a risg archwilio mewnol yr un fath. Mae'r tri math o risgiau yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio cyfuniad o sgôr RAG (coch, oren a gwyrdd) a sgôr RAYG (coch, oren, melyn a gwyrdd). Mae defnyddio gwahanol raddfeydd i gyfrifo ac adrodd risg yn lleihau cymhared gwybodaeth risg ar draws y Cyngor.

## Gwneud gwelliannau yn barhaus

Mae prosesau gwerthuso'r Cyngor wedi nodi amrywiaeth o feysydd i'w gwella yn ei faes reoli perfformiad. Mae'r Cyngor hefyd yn ymateb i adborth gan Aelodau Etholedig a'n hadroddiadau. Mae gwerthuso trefniadau yn elfen allweddol o sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Mae'r Cyngor yn defnyddio adroddiadau perfformiad a sylwebaeth ansoddol gan wasanaethau, gyda'r nod o ddarparu asesiad cytbwys o allbynnau ac effaith ei wasanaethau. Mae Aelodau etholedig a'n hadroddiadau blaenorol wedi tynnu sylw at bwyslais ar ddata allbynnau yn adroddiadau perfformiad y Cyngor. Er enghraifft, yn y mesurau perfformiad arfaethedig ar gyfer cynllun blynyddol 2024-25, roedd blaenoriaeth 2 ('Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir sydd ag economi lewyrchus gyda diwylliant wrth ei gwraidd') yn cynnwys 10 mesur arfaethedig. Roedd naw o'r rhain yn allbynnau (e.e. nifer y busnesau a ddarparwyd gyda chymorth a chyngor, nifer yr ymwelwyr yn ystod misoedd y gaeaf, nifer yr ymholiadau i'r llyfrgell a'r tîm gwybodaeth) a dim ond un oedd yn ganlyniad (datblygu asesiad o sut mae digwyddiadau yn effeithio ar ein heconomi).

Mae'r Cyngor wedi nodi camau gweithredu yn dilyn ei werthusiad, gan gynnwys:

- ehangu ei ddefnydd o ddata canlyniadau a safbwynt defnyddwyr gwasanaethau, gan gynnwys cynlluniau i ddatblygu ei arolwg rhanddeiliaid ei hun; a
- gwella ei ddogfennau canllawiau i gefnogi meysydd gwasanaethau i ddatblygu eu cynlluniau gwasanaethau blynyddol a'u prosesau adrodd.

Gallai manteision y gweithgareddau hyn wella rheoli perfformiad ledled amrywiaeth eang o feysydd gwasanaeth a gwella dealltwriaeth y Cyngor o effaith ei wasanaethau.

# Ein hargymhellion

Rydym yn gwneud un argymhelliad:

- mae'r Cyngor wedi nodi bod angen cynyddu ei ddefnydd o ddata canlyniadau a data safbwynt defnyddwyr gwasanaeth i wella rheoli ei berfformiad. Mae hyn yn berthnasol i gynlluniau blynyddol meysydd wasanaethau a'r cynllun corfforaethol. Dylai'r Cyngor adolygu'r mesurau perfformiad y mae'n eu defnyddio er mwyn canolbwyntio ar ganlyniadau i sicrhau eu bod yn deall effaith eu gweithgaredd.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.